Deryn y Bwn

Deryn y Bwn o'r Banna'
Aeth i rodio'r gwylia'
Lle disgynnodd o ar ei ben, ar ei ben,
Bwm, bwm, bwm, bwm,
Ond i bwn o 'fala.

Deryn y Bwn a gododd,
Y 'fala i gyd a gariodd
Dros y Banna' i Farchnad Caer, Marchnad Caer,
Bwm bwm, bwm bwm,
Ac yno'n daer fe'u gwerthodd.

'Fala, 'fala filoedd!
'Fala melyn laweroedd!
Y plant yn gweiddi am 'fala'n groch, 'fala'n groch,
Bwm bwm, bwm bwm,
Rhoi dima goch am gannoedd.

Deryn y Bwn aeth adra
Yn ôl dros ben y Banna'.
Gwaeddai: "Meistres, o gwelwch y pres, gwelwch y pres"
Bwm bwm, bwm bwm,
"Ges i wrth werthu 'fala!"

© 2020 S4C